

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn, Rhagfyr 4ydd, 2012

Presennol: Huw P Roberts (Cadeirydd), Huw Antur (Is gadeirydd), Ian Trow, Dewi Jones, Arwel LL Jones, Catrin Roberts, Beryl Hughes Griffiths, Heledd Jones, Karl Jones

Cynghorydd Alan Evans, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb.

1119 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Rhodri Jones a PC Dylan Jones
Derbyniwyd datganiad buddiant (teulu) gan Beryl Hughes Griffiths ym mater cais
Bwch yn Uchaf

1120 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda

1121 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Tachwedd 6ed, 2012

1122 **Materion yn codi :**

1114.2 Cyfetholwyd Alwyn Roberts Weirglodd Wen yn unfrydol.

1115.2 (Arall) Ceidwaid Chwarae - gwnaethpwyd cais am gynnwys yr ardal hon ond ni ddaeth ateb hyd yn hyn.

1124 **Gohebiaeth:**

Gwynedd:

- 1) Derbyniwyd Llyfryn "Agor y Gist"
- 2) Derbyniwyd Rhaglen Waith y Cyngor yn nodi gwaith i'w wneud wrth Erw'r Fron.

Parc Cenedlaethol Eryri

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i storfa slyri yng Ngwernhefin
- 2) Trafodwyd cais am wybodaeth Cyngorwyr o'r defnydd o faes carafanio Bwch yn Uchaf NP5/71/LU269E. Cafwyd trafodaeth. Gofynnodd yr aelodau i'r Clerc ysgrifennu at Y Parc ar eu rhan yn unigol gan fynegi y bu cynnydd aruthrol yn nefnydd y safle yn y 3 – 4 mlynedd diwethaf, ac i wrthwynebu'r cais am Dystysgrif a fyddai'n rhoi'r hawl i 10 carafán a 25 pabell ar lan yr afon, a nifer penagored o bebyll ar y cae uchaf.

Un Llais Cymru

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth am holiadur " Addasu i newid hinsawdd"
- 2) Derbyniwyd gwybodaeth am y Pwyllgor Ardal a gynhelir ar Ionawr 9fed

Llywodraeth Cymru

Derbyniwyd holiadur Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

1125 Materion eraill:

- 1) Cytunwyd i anfon at y Cyngor Sir am sylw'r giang cymunedol i dyfiant sy'n tyfu dros y palmant o flaen Maesypany. Hefyd mae angen sylw i wagio'r gwaddod o'r draeniau yn Nhŷ'n Ddôl, a'r grid wrth bont Y Pandy.
- 2) Bydd Liz Haines yn ymweld â'r Clerc i drafod y gwlybaniaeth anarferol ar Lwybr y Ceunant
- 3) Trafodwyd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal. Derbyniwyd neges gan PC Jones yn manylu ar y cyrch cyffuriau a gynhaliwyd yn ddiweddar. Hefyd croesawyd y newyddion fod mwy o heddweision yn mynd i gael eu lleoli yn Y Bala. Diolchwyd i PC Dylan Jones am ei neges a'i waith. Derbyniwyd e-byst gan Heddlu Gogledd Cymru yn sôn am ymgyrch y Nadolig i atal gyrru o dan ddylanwad, ymgyrch 12 dydd y Nadolig ar sut i atal troseddau, a gwybodaeth am Action Fraud sydd yn ymwneud â thwyll (Talu ffi ymlaen llaw, twyll bancio a chardiau credyd, twyll siopa ar lein a thwyll gwasanaeth meddalwedd cyfrifiadurol).

Adroddodd y Cynghorydd Alan Evans iddo bwyso ar Gartrefi Cymunedol Gwynedd geisio gosod tenantiaid yn y fflatiau a fyddai'n gallu uniaethu gyda'r ardal hon. Diolchodd yr aelodau iddo, gan bwysleisio fod cyfrifoldeb gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd at y cymdogion sydd yn haeddu cael byw yn eu cartrefi heb aflonyddiaeth arnynt.

Gan fod rhai yn wag erbyn hyn, anogodd yr aelodau i bobl o'r ardal hon wneud cais am gael byw yn y fflatiau yma.

1126 Materion ariannol:

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf
- 2) Ystyried biliau'r mis: cytunwyd i dalu costau'r Clerc gan ei bod yn ddiwedd y flwyddyn
- 3) Derbyn gwybodaeth am y sefyllfa gyda'r dreth

1127 Partneriaeth Penllyn - adroddodd Huw Antur ei bod yn gyfnod allweddol ar y Bartneriaeth ar hyn o bryd. Mae'r gwaith gyda'r toiledau, manau chwarae a llwybrau'n parhau. Hefyd mae'r gwaith ar y ganolfan gwasanaethau'n mynd yn ei flaen. Derbyniwyd Astudiaeth Dichonolrwydd ac mae Cynllun Busnes yn cael ei lunio yng nghyd a cheisiadau am arian cyfatebol. Disgwylir penderfyniad gan Gyngor Sir Gwynedd am adeilad yr Henblas. Cafwyd cyfarfod gyda Pharc Cenedlaethol Eryri am y posibilrwydd o drosglwyddo gofal am rai asedau i'r bartneriaeth. Er mwyn gallu ymgeisio am grantiau a chymryd gofal o asedau, mae'n angenrheidiol ffurfio Cwmni o dan Warrant - Cwmni Pum Plwy Penllyn. Cytunwyd i ethol Beryl Hughes Griffiths a Huw Antur i weithredu fel rhai o Gyfarwyddwyr y Cwmni.

Cytunwyd i gyfarfod nesaf ar 8/1/13, gan ei bod yn Wyl y Banc ar y nos Fawrth cyntaf yn Ionawr. Cytunwyd i roi Noson Goffi'r Cyngor ar yr Agenda.

Lis Puw (Clerc)